

Gofynion Allweddol Maniffesto Llywodraeth nesaf Cymru



Gweithredu Y ffordd ymlaen i Gymru

- » Sefydlogrwydd
- » Ffermydd Teuluol
- » Economi Wledig, Cymunedau a Swyddi Cymru
- » Amaethyddiaeth Gynaliadwy
- » Gwobrwyo Canlyniadau Amgylcheddol

1 Cyflawni cefnogaeth wledig ac amaethyddol sy'n canolbwyntio ar amddiffyn ffermydd teuluol - trwy fecanwaith cyflawni cyfannol sy'n cael ei yrru gan ddata ac sy'n adlewyrchu'r Nodau Lles statudol a rôl ffermwyr wrth gyflawni nodau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, yn hytrach na defnyddio nwyddau cyhoeddus fel yr unig fecanwaith cyflawni.

2 Tynnu'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) Ilym yn ôl a allai gostio £360 miliwn i'r diwydiant mewn costau seilwaith yn unig ac yn lle hynny gweithredu datrysiadau wedi'u targedu a gyflwynwyd gan rhanddeiliaid.

3 Sicrhau esblygiad nid chwyldro o bolisiâu a systemau data newydd. Defnyddio a datblygu'r system RPW Ar-lein gyfredol yn llawn i gwmpasu nodau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Gwobrwyo'r ddarpariaeth flynyddol o ddata, gan ganiatáu cyfnod trosglwyddo priodol i gynllun newydd

4 Profi'r llinell sylfaen reoleiddio arfaethedig 'Safonau Gofynnol Cenedlaethol' yn erbyn prawf anfantais gystadleuol - sicrhau nad oes gan ffermwyr Cymru gostau cynhyrchu uwch na'r gwledydd hynny rydym yn cystadlu â nhw oherwydd mwy o reoleiddio. Rhaid bod tystiolaeth gywir o reoleiddio, yn gymesur ac ni ddylai ychwanegu at bwysau economaidd ar ffermydd.

5 Sicrhau fod taliadau wedi'u capio ar lefelau sy'n ffafrio ffermydd teuluol ac yn atal arian rhag llifo o fusnesau sy'n cefnogi cymunedau gwledig a gweithgaredd economaidd, i dirfeddianwyr mawr, busnesau mawr ac elusennau sy'n berchen ar dir.

6 Sicrhau nad yw cynlluniau'r dyfodol yn dadrymuso nac yn rhoi tenantiaid, newydd-ddyfodiaid a chominwyr newydd dan anfantais - trwy osod gormod o bwyslais ar fuddsoddiad (megis y Rheoliadau Adnoddau Dŵr), gan greu loteri cod post o opsiynau da cyhoeddus, neu orfodi ymrwymadau nwyddau cyhoeddus tymor hir (fel plannu coed) sy'n creu rhwystrau caniatâd landlord. Darparu taliad sefydlogrwydd sylfaenol i sicrhau cydraddoldeb ymhellach ar draws ffermwyr ac ardaloedd.

7 Creu a chynnal cyflogaeth wledig - sicrhau bod y degau o filoedd o fusnesau eraill sy'n dibynnu ar wariant amaethyddol ddim yn cael ei effeithio gan ostyngiadau mewn cefnogaeth uniongyrchol.

8 Dwyn Llywodraeth y DU i gyfrif ar amddiffyn safonau bwyd mewn cytundebau masnach yn y dyfodol - sicrhau bod y Comisiwn Masnach ac Amaeth (TAC) yn parhau i fod â chynrychiolaeth amaethyddol gref o Gymru er mwyn osgoi cytundebau masnach sy'n tandorri safonau cynnyrch a chynhyrchu ffermwyr Cymru.

9

'Dim ceiniog yn llai' - clustnodi'r gyllideb amaethyddol a darparu cyllideb fframwaith ariannol aml-flwyddyn i adfer sefydlogrwydd - sicrhau fod digon o gyllideb ac adnoddau i gyflawni'r hyn a ofynnir o ffermwyr yn y dyfodol a dwyn Llywodraeth y DU i gyfrif ar eu haddewid cyllidebol.

10

Sicrhau nad yw targedau plannu coed a chefnogaeth amaethyddol yn y dyfodol yn cael eu cyfeirio at blanhigfeydd coed unllystyfiannol ar raddfa fawr er anfantais i allu amaethyddol, cymunedau a diwylliant gwledig, bioamrywiaeth a ffermydd teuluol Cymru. Ni ddylid dal cymunedau gwledig yn anghymesur o gyfrifol am daclo newid yn yr hinsawdd.

Gofynion pellach

11

Parchu datganoli trwy roi mwy o bwyslais ar farn etholwyr Cymru yn ystod ymatebion ymgynghoriad, yn hytrach na barn pobl mewn rhanbarthau a gwledydd eraill nad yw gwleidyddion Cymru yn atebol iddynt

12

Gweithio gyda gweinyddiaethau datganoledig i ddatblygu rhaglen ddileu newydd yn y DU sy'n rhoi sicrwydd i wledydd eraill bod fectorau TB mewn gwartheg a bywyd gwyllt yn cael sylw fel y bydd y DU yn rhydd o TB o fewn cyfnod amser derbyniol. Cefnogi ffermwyr sydd â straen ariannol a meddyliol difrifol oherwydd achosion bTB.

13

Darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i helpu ffermydd i gynyddu potensial y farchnad a gwella effeithlonrwydd mewn perfformiad economaidd ac amgylcheddol. Meithrin arloesedd i alluogi ffermwyr i gystadlu mewn marchnad fyd-eang a sicrhau y gallant barhau i gyfrannu at ddiwydiant bwyd a diod Cymru sydd werth biliynau o bunnoedd.

14

Sicrhau fod buddsoddiad mewn cysylltedd gwledig yn gymesur â dibyniaeth Llywodraeth Cymru a ffermwyr ar wasanaethau ar-lein heddiw ac yn y dyfodol megis cofnodi da byw

15

Sicrhau fod cymunedau gwledig a thir fferm yn cael eu hamddiffyn rhag galw cynyddol am berchnogaeth ail gartref ar ôl pandemig Covid-19 trwy ddeddfwriaeth mynediad priodol, y Cod Cefn Gwlad yn cael ei hyrwyddo'n well, plismona gwledig, a pholisïau neu drethiant sy'n gostwng prisiau tai chwyddedig i'r gymuned leol.

16

Ymestyn rôl Cydlynnydd Troseddau Gwledig a Bywyd Gwyllt Cymru gyfan ar ôl ei gyfnod cychwynnol o 12 mis

17

Cymell cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y fferm gan gynnwys adfer cefnogaeth i helpu Cymru i gyflawni eu targedau darpariaeth ynni adnewyddadwy

18

Sicrhau caffaeliad cyhoeddus a preifat o gynnyrch Cymreig - o fwyd i bren i wllân, o ysbytai i ysgolion

19

Gweithio gyda rhanbarthau datganoledig eraill ar bolisïau a safonau'r dyfodol i sicrhau bod gan farchnad fewnol y DU yr ystumiad lleiaf posibl er mwyn hwyluso masnach rhwng cenhedloedd

20

Rhoi blaenoriaeth i barhau i gyflenwi ein marchnad fwyaf a chyfoethocaf, yr UE, a chefnogi allforwyr cynnyrch o Gymru gyda gofynion allforio newydd